


Cofnodir enwau dros hanner cant o dylau crancod rhwng Porth Colmon a Phorth Ty Mawr, pellter o rhyw filltir yn unig. Mae'n amlwg bod perthynas agos rhwng y mor a'r trigolion yma. Ar draeth hardd Penllech gwelir amrywiaeth o dywod a chreigiau, ac yn y pen gogleddol mae Twyn Penrhyn Melyn.

The names of over fifty crab holes have been recorded between Porth Colmon and Porth Ty Mawr, a distance of only one mile. It is obvious that there was a close relationship between the people and the sea here. The sweep of beach at Traeth Penllech is composed of sand and rock, and at the northern end is Twyn Penrhyn Melyn.



Porth Ysgaden

Porthladd bach dymunol iawn yw Porth Colmon, lle mewnfordd glo, calch a llwch esgyrn. Roedd yn rhaid cael peilot os am ddod a'r llongau i mewn yn ddiogel. Drylliwyd un o'r llongau, sef y 'Colonel Gamble' ar y creigiau, wrth iddi geisio dod i mewn i'r Porth yn rhy ddweddardd un hydref yn nechrau'r ganrif. Deuai troliau i lawr i gario glo oddi ar y llongau.

Coal, lime and bonemeal were imported to Porth Colmon, one of the most pleasant little ports of Llŷn. A pilot was essential to bring ships in safely although one of these the Colonel Gamble, was wrecked on the rocks whilst attempting to come into the harbour too late one autumn at the beginning of the century. Carts were used locally to carry coal brought ashore.

Cedwid cwch tri mab Tir Dyrys, Rhoshirwaun ym Mhorth Widlin. Boddwyd y tri pan aethant i godi rhwyd a hithau'n forlog yn nechrau haf 1933. Cyfansoddodd R Williams Parry englyn i'r tri:

Y tri llanc ieuanc eon - sydd isod
Soddasant i'r eigion;
Obry ni chynnwys Hebron
Na physg, na therys, na thon.

Three brothers, the sons of Tir Dyrys, Rhoshirwaun were drowned at the beginning of summer 1933 when they set out from Porth Widlin, where the boat was kept, to lift nets in a stormy sea.




Mae rhwydwaith llwybrau cefn gwlad Penrhyn Llŷn yn cynnwys lonydd glas, llwybrau cyhoeddus a lonydd. Dylid dilyn yr anwyddion bob amser. Awgrym yn unig o'r llwybr a geir yma, a dylid defnyddio'r taflenni efo'r map/iau OS priodol i'r cych (cyfres Pathfinder).

The footpath network on the Llŷn Peninsula includes tracks, public footpaths and country lanes. Signposts should be followed at all times. This leaflet is intended as a guide only, and should be used in conjunction with the relevant OS map/s from the Pathfinder series.

Yn 1985 sefydlwyd Prosiect Rheolaeth Cefn Gwlad Llŷn gan Gyngor Dosbarth Dwyfor. Gwnelr gwaith ymarferol ar lwybrau cyhoeddus a gwarchod y tirfyn er mwyn diogelu'r amrywiaeth o fywyd gwylt, megis y frân goesgoch a welir ar ein logo.

The Llŷn Countryside Management Project was set up by Cyngor Dosbarth Dwyfor in 1985. Practical work is undertaken on public footpaths and protecting the landscape in order to safeguard the variety of wildlife, such as the chough depicted on our logo.

DILYNWCH REOLAU CEFN GWLAD FOLLOW THE COUNTRY CODE



(Chafarthrap)

RHWYDWAITH LLWYBRAU
LLŷN
FOOTPATH NETWORK



PORTH DINLAEN PORTH WIDLIN

Gan amgylchynu Llŷn ar dair ochr, y môr oedd y prif gyswllt â'r byd mawr am ganrifoedd. Galwai llongau sawl gwaith y flwyddyn yn y porthladdoedd bychain a fu'n gwasanaethu ardal wledig Pen Llŷn. Roedd Porth Dinlaen yn enwog am y llongau a adeiladwyd yno. Er ei fod yn fae cysgodol rhag bron pob gwynt, drylliwyd llawer yno mewn stormydd




Porth Dinlaen

Surrounding the Llŷn peninsula on three sides, the sea was for many centuries the main link with the outside world. Ships would call several times a year at the small ports servicing Llŷn. The ships that sheltered at the port of Porth Dinlaen, now owned by the National Trust, were safe from nearly all winds, but despite this many ships were lost here.

Ym Mhorth Ysglaig gwelir olion hen felin. Aeth llong ar y creigiau yma tra ar ei thaith un hydref o Sbaen i Lerpwl gyda llwyth o gnau at y Nadolig.

At Porth Ysglaig are the remains of an old mill. It is said that a ship went on to the rocks here one autumn when on its journey to Spain from Liverpool with a load of nuts for Christmas.

Porth Ysgaden oedd y porthladd cyntaf, a chludwyd nwyddau megis llestri, haearn, liedr, pyg, tar, tybaco, tê, coffi, gwin, siwgr, oreannau ac ati yno. Deuid hefyd a glo a gwelir yr ierdydd hyd heddiw. Codwyd odyd i losgi'r calch a fewnforwyd yno. Allforiwyd cynnyrch fferm megis menynd a chaws, a dibynna'r pobl leol ar halitu a gwerthu penwaig. Bu'r murddun ar ben yr allt yn gartref i saer coed, ac ar dywydd garw rhoddwyd kannwyll yn y ffenestr i rybuddio llongau fod creigiau peryglus islaw.



Mulfran

Cormorant

Porth Ysgaden was the first of the small ports of Llŷn, and goods such as crockery, iron, leather, tobacco, tea, coffee, wine, sugar, and oranges were imported. Coal was also brought here, the coal yards still being visible today. A kiln was built to burn the imported lime. Farm goods such as butter and cheese were exported, and farmers were dependant on salting and selling herring. The clifftop ruin was once the home of a boat builder. In stormy weather a candle would be hung at the window to warn ships that there were dangerous rocks nearby.


Daeth llong efo llwyth o 'rum' i'r lan ym Mhorth Ychain, a dim ond wats yn tician mewn caban a mochyn byw ar ei bwrdd.

Cwbilhawyd y llyfr log am y diwrnod cynt.

Gwelir hen ffordd droi yn arwain i lawr i Borth Ty Mawr, lle'r aeth y llong Stewart i helbulon yn 1901. Cludai stowt, canhwylau, matsus, pianos, a charpedi, ond wisgi oedd cyfran dda o'r cargo, ac ail-fedyddiwyd y fan yn Porth Wisgi. Mae un o diwbiau'r Stewart i'w weld ar y creigiau heddiw, a daw peth o'r llong ei hun i'r golwg ar dreiau mawr. Yma hefyd daw'r haen o Gerrig Melyn i'r golwg, carreg anghyffredin iawn i'r cylch.

A ship laden with rum once came in to Porth Ychain, with only a ticking watch in a cabin and a live pig on board. The log book for the previous day had been neatly filled in.

An old cart road can be seen winding down to Porth Ty Mawr. Here, the ship Stewart, carrying crockery, stout, candles, matches, pianos, carpets, and whisky, got into difficulties in 1901. One of the ship's tubes can be clearly seen on Cerrig Melyn (an unusual yellow rock) today, and part of the ship also comes into sight at very low tides.



Gogledd North
Lwybrau Lonydd
Footpaths
Roads